

Gofalu am fy mab

Rwy'n gofalu am fy mab 25 mlwydd oed, Jamie, sydd wedi cael gwybod yn ddiweddar fod ganddo awtistiaeth ac anawsterau dysgu. Y diagnosis oedd wedi'i gael cyn hyn oedd DAMP (diffyg canolbwyntio gyda sgiliau canfyddiad echddygol).

Mae bywyd wedi bod yn anodd i Jamie ac mae hyn, yn ei dro, wedi effeithio ar y teulu. Dechreuodd Jamie ddringo 3 blynedd yn ôl ac mae wedi bod gyda'r hyfforddwr dringo, Mark McGowan, am 2 mlynedd bellach. Trwy Mark, cafodd Jamie'r cyfle i fynd i ddringo am wythnos yn y Pyrenees fis Rhagfyr diwethaf. Ond d'oedd gennym ni'r un syniad sut i dalu am yr holl gyfarpar drud oedd ei angen arno.

Aethom at Wasanaeth Cynnal Gofalwyr am help, ac roedd y canlyniadau uwchlaw unrhyw beth y medrwn fod wedi'i breuddwydio. Talodd grant o £250 o Ymddiriedolaeth Richard Overall (Ymddiriedolaeth i helpu pobl anabl fwynhau a datblygu yn eu hoff chwaraeon) am eitemau fel helmed, bag a 'quickdraw'; Darparodd V12 gyfarpar dringo, gan gynnwys rhaff; a darparodd DMM focs o ddeunyddiau dringo (dau siop yn Llanberis).

Roedd Jamie'n llawn cyffro wrth iddo bacio a chynllunio'i daith. Mwynhaodd ei wythnos ddringo'n fawr iawn. Yn wir, roedd yn amser ardderchog i'r teulu gyfan – roedden ni'n medru ymlacio gan wybod fod Jamie mewn dwylo da ac yn gwneud rhywbeth yr oedd yn ei fwynhau. Roedd yr wythnos honno fel aur i ni i gyd.

Mae gan Jamie ddiddordeb brwd mewn dringo. Mae'n dweud mai dyma ei feddyginiaeth ac mae wrthi'n ysgrifennu llyfr am oresgyn ei anawsterau gyda chymorth dringo, ei ffrindiau dringo a'i hyfforddwr. Mae hefyd yn ysgrifennu blog sydd â chryn dipyn o ddilynwyr.

Trwy ddringo, mae Jamie'n tyfu fel person. Mae wedi cael gwahoddiad i gystadlu mewn digwyddiad dringo ym mis Chwefror, felly bydd yr offer yn cael ei ddefnyddio eto.

Hoffwn ddiolch i V12 a DMM am eu rhoddion ac i bawb yn Cynnal Gofalwyr am eu help, nid yn unig gyda'r offer dringo, ond am fod yna i ni fel teulu dros y blynyddoedd, yn arbennig Gwyneth a Helen. Mae bywyd yn anodd o hyd, ond mae dringo wedi helpu pob un ohonom.

~ Melanie Roberts